Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
Y PENCADLYS, PARC BUSNES FOREST VIEW, LLANTRISANT

CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth
Parhaol
37 AWR YR WYTHNOS
CYFEIRNOD: 505285
GRADD 11 - CYFLOG: £36,648 - £37,336

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Swyddog Cyfathrebiadau newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol, a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth i ddarparu cyfeiriad, cefnogaeth a chyngor i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth mewn materion yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GPDR) Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA), Rheoliadau Preifatrwydd ac Electronig (PECR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn rhoi cyngor i'r sefydliad ar faterion yn ymwneud â rheoli gwybodaeth yn effeithiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gadw a gwaredu cofnodion, rhannu gwybodaeth a datgelu gwybodaeth.

Mae hon yn rôl barhaol a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant. Rydym yn cynnig:

- System weithio hyblyg
- Gweithdrefnau sy'n gyfeillgar i deuluoedd
- Campfa ar y safle
- Lwfans ymarfer corff wythnosol (60 munud)
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- 30 diwrnod o wyliau blynyddol

Ceir manylion llawn am y rôl yn y Swydd Ddisgrifiad a'r Manyleb Person ond os oes gennych unrhyw ymholiadau mae croeso i chi gysylltu â'n Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth drwy law e-bost c-landeg-john@decymru-tan.gov.uk

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/ Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw dydd Gwener 16eg o Chwefror 2024 am hanner dydd.

Cynhelir y Cyfweliadau/Proses Ddethol yw 7fed/8fed o Fawrth 2024.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.